**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

26 Hydref 2023

**Protocol i Ddiwygio Cytundeb Marrakesh sy'n Sefydlu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau Pysgodfeydd**

Annwyl Lesley

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y cytuniad hwn, ynghyd â Memorandwm Esboniadol, wedi cael ei osod gerbron Senedd y DU a bod y cyfnod craffu cychwynnol ar ei gyfer yn dod i ben ar 21 Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth ychwanegol am y canlynol:

- eich barn am y Protocol;
- ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ar ei delerau;
- pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu'r Protocol mewn meysydd datganoledig; ac
- asesiad Llywodraeth Cymru i weld a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol neu ymarferol, i sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â'r Protocol mewn meysydd datganoledig.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Senedd Cymru
Welsh Parliament